

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

GRIFFITH, DAVID (1792 neu 1794-1873), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: David Griffith
Dyddiad geni: 1792 neu 1794
Dyddiad marw: 1873
Plentyn: David Griffith
Plentyn: Robert William Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd yn Rhiwfelen, Abergwili. Symudodd y teulu i Lanegwad ac yn eglwys y Panteg y magwyd y mab, ac yno y dechreuodd bregethu yn 16 oed. Wedi rhyw ddwy flynedd yn ysgol y **Parch. David Peter** yng Nghaerfyrddin daeth yn weinidog Bethel, Llanddeiniolen, Arfon, cangen o Pendref, Caernarfon, a sefydlasid tua 1810; urddwyd ef yno yn 1815. Priododd ferch y Bryn, Llanfair-is-gaer, ac yno y preswyliai gan ffermio a gweinidogaethu ym Methel a'r cylch. Daeth yn fuan yn ŵr adnabyddus iawn yn y Gogledd ar gyfrif ei waith ynglŷn â chychwyn achosion newyddion ac yn arbennig drwy fyned yn gyfrifol am ddyledion capelau, a hynny yn fynych er treth drom ar ei amgylchiadau. Bu â rhan amlwg yn sefydlu eglwysi Ebeneser, Deiniolen (bu'n weinidog arni, 1822-32, ei gweinidog cyntaf), a Seilo, Porthdinorwig, y bu'n weinidog arni hyd 1851. Bu farw 27 Chwefror 1873, a chladdwyd ef ym mynwent Bethel.

Yn 1849 daethai ei fab hynaf, DAVID GRIFFITH (1823 - 1913), yn gyd- weinidog ag ef ar Seilo a Bethel; ganwyd yn 1823 yn y Bryn, Llanfair-is-gaer; addysgwyd gyda'r Parch. Griffith Hughes, y Cefn, Llanddeiniolen, ac yn Lerpwl. Ef a sefydlodd eglwys Moreia, Porthdinorwig. Yn 1873 symudodd i fod yn weinidog eglwys Dolgellau; ymdeolodd yn 1889 ac aeth i fyw i Ddeganwy ac yn ddiweddarach i Fryntirion, Bethel, lle y bu farw yn 1913; fe'i claddwyd ym mynwent Llanfair-is-gaer. Ef, meddir, oedd y galluocaf o'r teulu. Ymddiddorai mewn llenyddia; bu'n golygu *Dysgedydd y Plant* (1871-8) ac yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr (1890). Cyhoeddodd gyfrol drwchus, *Hanes yr Eglwys Gristionogol drwy y Byd*, ond er yr holl lafur a olygodd iddo, nid enillodd iddo safle fel hanesydd. Cyhoeddodd hefyd gofiant i **David Roberts**, Wrecsam.

Bu ei frawd ieuengaf, ROBERT WILLIAM GRIFFITH (1835 - 1894), yn cydweinidogaethu ag ef o 1866 hyd 1873 ym Methel, Seilo, a Moreia; ganwyd ef yn y Bryn, Ionawr 1835. Cafodd ei addysg yn ysgol Porthdinorwig, y Liverpool Institute, ac ysgol y Parch. Evan Harris, yr Wyddgrug. Bu'n amaethu yn y Bryn hyd 1866, pryd yr urddwyd ef yn weinidog; ef a ofalai am yr eglwysi ei hun o 1873 hyd ei farw yn 1894. Daeth yn ŵr amlwg iawn gyda materion gwladol; yn arweinydd Rhyddfrydig yr ardal; 'Tra fu byw, ef a fu'n cynrychioli'r ward ar y cyngor sir ... Ni byddai Robert Griffith yn bugeilio, y mae'n debyg mai ef oedd y bugail mwyaf di-lun a fu ar eglwys erioed ...' (**W. J. Gruffydd**, yn *Hen Atgofion*, 31, 32).O dan ei arweiniad casglwyd digon i godi Ysgol Frutanaidd ym Methel a chael athro trwyddedig wedi cael coleg iddi. Bu'n ysgrifennydd cwrdd chwarter Arfon am 20 mlynedd. Bu farw 30 Rhagfyr 1894.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen , (1890 - 1973)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 254-8; v, 460

Cofiant y Parch. David Griffith, Bethel, Arfon (1879), gan ei feibion (Caernarfon, 1879)

D. Griffith, *Cofiant y Parch R.W. Griffith, Bethel* (1896) (Caernarfon, 1896)

W. J. Gruffydd, *Hen atgofion blynyddoedd y locust* (1936), 31-2, 46

Y Genedl Gymreig, 4 Mawrth 1913

Llawlyfr Undeb Caernarfon (1930), 1930

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732821

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

Owen, R. G., (1953). GRIFFITH, DAVID (1792 neu 1794-1873), gweinidog gyda'r Annibynwyr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-DAV-1794>

Griffith

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government